| **W3. Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig gwyn** | 1 | 2 | 3 | **6** | **0.4%** |
| **W4. Gwyn Roma** | - | 1 | 3 | **4** | **0.3%** |
| **W9. Unrhyw gefndir gwyn arall** | 9 | 13 | 10 | **32** | **2.0%** |
| **NS. Heb ei nodi** | - | 2 | 3 | **5** | **0.3%** |
| **Cyfanswm terfynol** | **535** | **525** | **538** | **1,598** | **100.0%** |

*Ffigur 63: Nifer yr unigolion yn y ddalfa yn ôl ethnigrwydd fesul mis yn ystod trydydd chwarter 2025–2026.*

Mae'r tabl uchod yn dangos nifer yr unigolion yn y ddalfa yn ystod trydydd chwarter 2025–2026, wedi'u dadansoddi yn ôl mis ac ethnigrwydd. Hunan-ddiffiniodd **92.4%** (1,477 o blith 1,598) o'r unigolion yn y ddalfa yn ystod y cyfnod hwn eu hethnigrwydd fel W1. Gwyn Prydeinig.

## Cynllun Cyflawni Gwrth-Hiliaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru

Mae'r Prif Arolygydd Kaamil Garnie yn parhau â darn o waith i gynorthwyo'r bwrdd cyfiawnder troseddol lleol i fwrw ymlaen â'r cynlluniau gwrth-hiliaeth. Rhoddwyd adborth i'r bwrdd ym mis Tachwedd. Adolygwyd cylch gorchwyl a chynllun cyflawni'r bwrdd cyfiawnder troseddol lleol drwy 'bersbectif gwrth-hiliaeth'. Er nad oes dim o'i le yn ei hanfod â'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd, daethpwyd i'r casgliad bod angen ymrwymiad mwy gweithredol i ddatgymalu ffurfiau sefydliadol ac unigol o hiliaeth er mwyn bod yn wrth-hiliol. Fel rhan o ganlyniadau'r cynllun, crybwyllir dadansoddi data a monitro rhaglenni neu berfformiad. Fodd bynnag, os ydym yn ceisio bod yn wrth-hiliol, dylid cynnwys casglu, monitro a dadansoddi data ethnigrwydd ar draws pob cam o'r system cyfiawnder troseddol. Nid oes data ar gael ar gyfer hyn ar hyn o bryd, a'r nod yw dod o hyd i ffordd o gofnodi hyn er mwyn i'r gwaith monitro fod yn gyraeddadwy. Mae gwaith yn cael ei wneud ar lefel Cymru gyfan i ganfod sut y gellir cyflawni hyn.

Ers i Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu a Chynllun Gweithredu Gwrth-Hiliaeth Cyfiawnder Troseddol Cymru gael eu lansio, mae Heddlu Dyfed-Powys wedi bod yn gweithio'n galed i roi cyfres o newidiadau ar waith er mwyn hyrwyddo cynhwysiant ar draws pob lefel o'r sefydliad. Mae'r hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiwylliannau sy'n ymwneud â hil gorfodol ar draws yr heddlu yn rhan allweddol o'r daith. Mae dros 1,100 o weithwyr eisoes wedi cael yr hyfforddiant hwn. Mae'r sesiynau hyfforddi wyneb yn wyneb hyn wedi'u cynllunio i ddyfnhau dealltwriaeth cyfranogwyr o hil, hunaniaeth a dynameg ddiwylliannol, a sut y mae'r rhain yn dylanwadu ar gydberthnasau a'r ffordd yr ydym yn gwneud penderfyniadau ac yn ymgysylltu â'r gymuned. Cydnabyddir bod pob aelod o staff yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o feithrin gweithle cynhwysol a deall safbwyntiau'r cymunedau y mae Heddlu Dyfed-Powys yn eu gwasanaethu. Cafwyd adborth cadarnhaol, gyda llawer o'r rhai a ymgymerodd â'r hyfforddiant yn tynnu sylw at natur ddiddorol ac ysgogol yr hyfforddiant, a'i fod yn darparu lle diogel ar gyfer dysgu, myfyrio a meddwl yn feirniadol am hiliaeth a'i effaith.

## Dulliau sy'n ystyriol o drawma

**Pa fath o waith sy'n cael ei wneud drwy ddilyn dull sy'n ystyriol o drawma, ac a gaiff ei arwain gan seicoleg? Beth y mae hyn yn ei ddweud wrthym am y ffordd yr ydym yn ei hyrwyddo, a beth yw canlyniad y gwaith hwn?**

Arweiniodd y tîm Glasbrint Cyfiawnder i Fenywod ddarn o waith er mwyn adolygu a phrofi'r model sy'n ystyriol o rywedd a thrawma ac a gaiff ei arwain gan seicoleg mewn cynlluniau dargyfeiriol. Mae'r model hwn bellach yn achrededig i safonau datblygiad proffesiynol parhaus, a bellach mae'n adnodd sydd ar gael i bawb ac y gellir ei ddefnyddio gydag unrhyw brosiect yn y dyfodol.

Yn dilyn y darn hwn o waith, cynhaliodd nifer o wasanaethau a gomisiynwyd gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu hunanasesiadau, gan ddiwygio eu darpariaeth a'i wneud yn rhan o'u gwasanaeth. Mae Kaleidoscope a Pobl ymhlith y gwasanaethau sydd wedi cwblhau'r camau hyn.

Yn ystod eu cyfarfodydd monitro chwarterol, caiff pob gwasanaeth a gomisiynwyd eu cwestiynu am eu dull sy'n ystyriol o drawma, a'r mesurau sydd ganddynt ar waith i fynd i'r afael â hyn.

**A ydym yn mabwysiadu model / dull sy'n ystyriol o drawma, yn ymatebol i rywedd, ac a gaiff ei arwain gan seicoleg (o fewn y swyddfa / yr heddlu / gwasanaethau)?**

Sefydlwyd gweithgor SCHTh i ystyried sut y gellid gweithredu dull sy'n ystyriol o drawma ar draws y swyddfa. Cynhaliwyd hunanasesiad er mwyn cadarnhau'r ddarpariaeth gyfredol a nodi targedau ar gyfer y dyfodol. Wedi hynny, crëwyd cynllun gweithredu a oedd yn manylu ar feysydd gwaith ar gyfer SCHTh.

Hyd yn hyn, mae SCHTh wedi cwblhau'r canlynol:

- Datganiad sefydliad
- Iaith sensitif a rhybuddion trothwy
- Rhestr wirio ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd
- Ychwanegiad i Lawlyfr SCHTh
- Ystyriaethau ychwanegol sy'n ystyriol o drawma yng nghyfarfodydd monitro chwarterol y gwasanaethau a gomisiynwyd
- Sefydlu'r cynllun cyfeillio ymarfer ystyriol
- Craffu ar y ffordd y mae'r heddlu'n gweithredu'r ymrwymiad

# Cydymffurfio â hawliau a hawlogaethau unigolion yn y ddalfa

## A ydyw hawliau a hawlogaethau unigolion yn y ddalfa yn cael eu cynnal?

- Roedd y pryderon a godwyd yn dilyn ymweliadau ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn ystod ail chwarter 2025–2026 yn cynnwys y canlynol:
    - Problemau staffio – Yn ystod y chwarter hwn, gwelwyd cynnydd yn nifer y pryderon a godwyd am broblemau staffio yn gyson ar draws yr holl ddalfeydd, gan awgrymu bod yr heriau'n berthnasol i'r sefydliad cyfan yn hytrach nag yn ddigwyddiadau unigol. Mae'r adborth gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn nodi bod y pwysau ar staff yn cael effaith ar faterion gweithredol, cyflenwi adnoddau cyfleusterau ac wedi arwain at gynnydd yn yr amser y mae'n cymryd i gludo unigolion yn y ddalfa.
    - Cau gorsafoedd – Fel y crybwyllwyd uchod, canlyniad problemau staffio yw bod ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi gweld nifer o ymweliadau'n cael eu canslo mewn dalfeydd gwahanol, heb gael eu hysbysu ymlaen llaw.
    - Darpariaeth gofal iechyd (gweithiwr gofal iechyd proffesiynol) – Mae problemau mewn perthynas â darparu gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn parhau oherwydd diffyg ymarferwyr sefydlog yn y ddalfa yn Aberhonddu. Codwyd ymholiad ynghylch y newidiadau i 'addasrwydd i ryddhau' (asesiad gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol sy'n penderfynu a all yr unigolyn yn y ddalfa ymadael â'r ddalfa ar ôl pennu dull o'i ryddhau) ar gyfer unigolion yn y ddalfa sydd wedi'u cyhuddo o droseddau rhywiol yn erbyn plant, yn holi a ydyw hyn yn bosibl trwy'r gwasanaeth ffôn o bell, sef *'Visionable'.*
    - Atgyweiriadau a gwaith cynnal a chadw – Y pryder ynghylch atgyweiriadau oedd yr un mwyaf amlwg dros y chwarter diwethaf. Yn dilyn cyfarfod diwethaf panel yr ymwelwyr annibynnol â dalfeydd, datgelwyd bod pryderon ychwanegol ynghylch glendid a materion yn ymwneud â'r dŵr ar ôl trosglwyddo gwaith adnewyddu mewn dalfa benodol.
    - Oedi i fynd i mewn i ddalfa a hygyrchedd o ran anabledd – Er y bu problemau o ran canslo ymweliadau oherwydd cau gorsafoedd, mae'n dda nad oes unrhyw oedi wedi bod oherwydd yr heriau o ran staffio, neu oherwydd bod y staff yn nodi eu bod yn rhy brysur i dderbyn ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa. Yn y chwarter diwethaf, nid oedd unrhyw ymwelwyr annibynnol â dalfeydd wedi adrodd am oedi cyn iddyn nhw gael ymweld â dalfa, nac unrhyw bryder yn ymwneud â mynediad i bobl anabl ymhlith unigolion yn y ddalfa.
    - Materion eraill a nodwyd – Eitemau crefyddol: adroddwyd am ddau achos yn Aberystwyth lle nad oedd ystod eang o eitemau crefyddol yn y lleoliad, o'i gymharu â dalfeydd eraill. Yn Nafen, roedd problem barhaus ynghylch yr eitemau a oedd yn cael eu storio yn ystafell loceri'r gweithiwr gofal iechyd proffesiynol er gwaethaf y ffaith bod cytundeb i storio'r eitemau hyn ar silff.

      Stociau bwyd – Adroddodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd fod stociau bwyd yn Nafen yn isel, ac nad oedd eitemau heb glwten i ddiwallu anghenion deietegol penodol. Nodwyd hefyd nad oedd cyllyll a ffyrc papur yn ymarferol pan oedd carcharorion yn bwyta prydau poeth.

- Mae Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa y Comisiynydd wedi canolbwyntio ar sawl pwnc yn ystod 2025. Mae canfyddiadau allweddol pob un o gyfarfodydd y panel isod:
  - Unigolion a gedwir yn y ddalfa o gefndir ethnig leiafrifol – Adolygwyd 30 o gofnodion achos, ac ni welwyd unrhyw dystiolaeth o wahaniaethu. Rhoddwyd eu hawliau i'r holl unigolion yn y ddalfa, naill ai wrth gofrestru neu yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod yn y ddalfa, cynigiwyd nwyddau mislif i bob menyw, a neilltuwyd swyddog o'r un rhyw iddynt. Roedd anawsterau'n gysylltiedig â chael cyfieithydd ar y pryd ar gyfer rhai ieithoedd yn golygu bod cynrychiolaeth gyfreithiol wedi'i gohirio; ac mewn un achos, cafodd yr unigolyn yn y ddalfa ei ryddhau ar fechnïaeth nes y gellid dod o hyd i gyfieithydd. Darparwyd ar gyfer eitemau crefyddol 17 o unigolion yn y ddalfa (57%). Er bod hwn yn welliant, roedd 10 cofnod heb unrhyw fanylion wedi'u cofnodi mewn perthynas ag eitemau crefyddol.
  - Unigolion bregus a gedwir yn y ddalfa – Adolygwyd 19 o gofnodion achos. Asesodd y Panel fod 53% o gofnodion yn dangos bod unigolion yn y ddalfa wedi cael eu trin yn dda gan staff y ddalfa, ac yr ymdriniwyd ag anghenion cymhleth yn dda. Cofnododd y panel y rhoddwyd ystyriaeth i risgiau 95% o'r unigolion yn y ddalfa, ac mai mewn un cofnod yn unig y methodd yr aelod panel ddod o hyd i'r manylion. Yr amser a gymerwyd i swyddog y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol ar gyfartaledd oedd 7 awr a 30 munud, a'r amser a gymerwyd i'r unigolyn yn y ddalfa gysylltu ag oedolyn priodol am y tro cyntaf, ar gyfartaledd, oedd 8 awr a 10 munud.
  - Defnyddio Grym – Adolygwyd 26 o achosion gan y panel. Drwyddo draw, roedd y panel o'r farn bod 54% o'r cofnodion yn cydymffurfio, ac yn nodi nad oedd angen i'r heddlu gymryd unrhyw gamau pellach oherwydd ansawdd y cofnod. Rhoddwyd dyfarniad 'oren' i 42%, oherwydd diffyg manylder neu eglurder yn y cofnod. Ystyriwyd 6% yn 'goch', naill ai oherwydd defnydd anghymesur o rym (un cofnod) neu ddiffyg manylion digonol i wneud penderfyniad (wyth cofnod). Cynigiwyd gwasanaethau cymorth i 20 o'r 26 unigolyn yn y ddalfa, neu cawsant eu hatgyfeirio atynt; a gwrthododd y 6 arall yr opsiwn hwnnw. Roedd y prif wasanaethau a gynigiwyd i'r unigolion yn y ddalfa ar gyfer iechyd meddwl. Gwelodd 20 o'r 26 unigolyn weithiwr gofal iechyd proffesiynol, gyda 6 yn wynebu oedi.
  - Menywod a merched yn y ddalfa – Adolygodd y panel 15 o gofnodion. Ni chafodd unrhyw achosion 'coch' eu hamlygu gan Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa. Roedd 60% yn 'wyrdd' a 40% yn 'oren'. Nid oedd unrhyw achosion o ddefnyddio grym na chynnal noeth-chwiliad. Roedd 9 o'r 15 unigolyn yn y cofnodion yn blant. Cwblhawyd y rhestr wirio plentyn yn y ddalfa, a chydymffurfiwyd ag adolygiad yr arolygydd ym mhob achos. Fodd bynnag, mynegodd y panel bryder ynghylch ansawdd y rhestrau gwirio hyn a oedd yn cael eu cwblhau, gyda 5 o'r 9 cofnod heb gofnodi llais y plentyn. Parhawyd i gwestiynu a oedd swyddog benywaidd yn cael ei neilltuo i unigolion benywaidd yn y ddalfa, a oedd y swyddogion yn cyflwyno eu hunain, ac a roddwyd y dewis i'r unigolion siarad â rhywun o'r un rhyw.

## A ydyw plant a phobl ifanc yn cael eu cadw yn y ddalfa yn gywir?

- Canfyddiadau mis Hydref 2025 Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa a oedd yn canolbwyntio ar blant yn y ddalfa:
  - Adolygwyd 10 achos gan y panel.
  - Yr amser y bu unigolyn yn y ddalfa ar gyfartaledd oedd 4 awr a 41 munud, sy'n welliant sylweddol, o'i gymharu ag adroddiad y llynedd o 18 awr ac 13 munud.
  - Roedd adolygiadau yr arolygydd yn dystiolaethol.
  - Rhoddwyd pob hawl naill ai wrth gofrestru neu yn ddiweddarach yn ystod y cyfnod yr oeddent yn y ddalfa.
  - Nid oedd 3 o'r 10 cofnod dalfa a adolygwyd gan Banel Craffu Annibynnol y Ddalfa yn cynnwys rhestr wirio plentyn yn y ddalfa.
  - O'r 7 cofnod a oedd yn cynnwys rhestr wirio plentyn yn y ddalfa, nid oedd 4 yn cynnwys llais y plentyn, sy'n golygu mai dim ond 3 rhestr wirio plentyn yn y ddalfa a gwblhawyd yn briodol.
  - Mae anawsterau o ran dod o hyd i oedolyn priodol neu sicrhau llety ar gyfer plant yn y ddalfa wedi'u priodoli i adnoddau prin / diffyg argaeledd y gwasanaethau cymdeithasol y tu allan i oriau swyddfa.
- Ym mhob cyfarfod Panel Craffu Annibynnol y Ddalfa, gofynnir i'r panel ystyried cydymffurfedd yr heddlu â'r rhestr wirio 23 pwynt ar gyfer plant yn y ddalfa. Mae rhai canfyddiadau allweddol ar gyfer 2025 yn cynnwys y canlynol:
  - Unigolion a gedwir yn y ddalfa o gefndir lleiafrifol ethnig – Dim ond un achos o blith y 30 oedd yn cyfeirio at unigolyn ifanc yn y ddalfa. Ni chofnodwyd y rhestr wirio plentyn yn y ddalfa, llais y plentyn na'r Reachable Moments ar gyfer y cofnod dalfa hwn.
  - Defnyddio Grym – Roedd un cofnod a oedd yn ymwneud â phlentyn yn y ddalfa, ond ni allai'r panel weld y rhestr wirio plentyn yn y ddalfa. Bydd hyn yn cael ei unioni ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol. Cadarnhaodd yr heddlu bod rhestr wirio plentyn yn y ddalfa wedi'i chynnwys yn y cofnod hwn, a bod tystiolaeth bod staff y ddalfa yn ymwybodol o'r model AWARE. Ystyr 'AWARE' yw ymddangosiad (appearance), geiriau (words), gweithgaredd (activity), cydberthnasoedd (relationships) ac amgylchedd (environment), ac mae'r holl agweddau hyn yn helpu i lunio darlun mwy cyflawn o amgylchiadau'r plentyn a ffactorau achosol posibl yn eu troseddu.

# Arolygon barn dioddefwyr

Mae arolygon barn dioddefwyr yn agwedd allweddol ar ddeall profiadau dioddefwyr a boddhad â'r heddlu. Mae Heddlu Dyfed-Powys wedi allanoli'r arolygon hyn i gwmni o'r enw Opinion Research Services (ORS) ers 2023. Mae hyn wedi cynorthwyo i gynyddu nifer yr arolygon a gynhelir, a chael mwy o eglurder ar farn dioddefwyr.

Mae'r data wedi'u casglu o'r dangosfwrdd barn dioddefwyr. Y cyfnod ar gyfer y data a gasglwyd oedd rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024 a rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025. Yr amserlen ar gyfer y data yw pan fydd y data wedi cael eu hadrodd yn ôl i ni gan ORS, ar ôl i'r arolygon gael eu cynnal. Felly, y dyddiad a adroddir ar gyfer y data a gyflwynwyd fyddai mis Gorffennaf i fis Medi 2024–2025.

## Arolwg cam-drin domestig

- Cynhaliwyd 107 arolwg rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024.
- Cynhaliwyd 139 arolwg rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025.

### Cyswllt cychwynnol

- Mae boddhad dioddefwyr â'r cyswllt cychwynnol wedi aros uwchlaw 70% ar draws y ddau gyfnod amser ar gyfer 2024 a 2025.
- Parhaodd boddhad yn sefydlog ar gyfer y cyswllt cychwynnol, gyda boddhad cyffredinol o 70.1% rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024, a boddhad o 75.5% yn 2025.
- Roedd boddhad ar ei uchaf ym mis Medi 2025 gyda 78.0%. Fodd bynnag, yn y flwyddyn flaenorol, roedd y boddhad ar ei uchaf ym mis Hydref 2024 gydag 82.1%.

### Cyswllt parhaus

- At ei gilydd, rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025, roedd dioddefwyr yn teimlo'n fodlon 79.9% o'r amser â'r driniaeth a roddwyd iddynt gan swyddogion a fu'n ymdrin â'u hachos. Yn 2024, roedd dioddefwyr yn teimlo'n fodlon 79.4% o'r amser. Mae boddhad wedi gostwng ychydig (0.5%) ar gyfer cyswllt parhaus o 2024 i 2025.
- Mae boddhad ymhlith dioddefwyr yn is o ran pa mor dda y teimlent eu bod wedi cael eu hysbysu yn ystod yr achos, lle'r oedd 55.1% o ddioddefwyr yn teimlo'n fodlon rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024. Yn y flwyddyn ganlynol, cynyddodd boddhad i 64.7% (cynnydd o 9.4%) rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025.

**A ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon ar y camau a gymerwyd gan yr heddlu?**

- Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025, roedd dioddefwyr yn teimlo'n fodlon ar y camau a gymerwyd gan yr heddlu 71.9% o'r amser.
- Rhwng mis Medi a mis Tachwedd, roedd dioddefwyr yn teimlo'n fodlon ar y camau a gymerwyd gan yr heddlu 62.6% o'r amser. Cynyddodd boddhad dioddefwyr 9.3% rhwng 2024 a 2025.

### Gwasanaethau

**A wnaeth unrhyw un o'r swyddogion heddlu neu staff y buoch chi mewn cysylltiad â nhw gynnig gwybodaeth i chi am y gwasanaethau cymorth a oedd ar gael i chi?**

- Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024, atebodd dioddefwyr eu bod wedi cael eu holi am wasanaethau cymorth 80.4% o'r amser. Ar y cyfan, roedd dioddefwyr yn teimlo'n fodlon ar y gwasanaethau a ddarparwyd (gan Goleudy) 95.0%.

- Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025 gofynnwyd y cwestiwn uchod i ddioddefwyr ynghylch swyddogion heddlu yn cynnig gwybodaeth am wasanaethau cymorth 74.1% o'r amser. Mae hwn yn ostyngiad o 20.9%, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.* *(Gan fod Goleudy wedi'i allanoli, nid yw data o fis Mawrth 2025 ymlaen yn cofnodi boddhad dioddefwyr â'r gwasanaethau a ddarperir gan Goleudy).*

## Arolwg stelcio

  - Cynhaliwyd 33 arolwg rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024.
  - Cynhaliwyd 16 arolwg rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025.
- Roedd dioddefwyr yn teimlo'n fodlon ar rwyddineb y cyswllt cychwynnol 87.9% o'r amser, ac yn teimlo'n fodlon ar y gwasanaeth a ddarparwyd 84.8% o'r amser, ar gyfartaledd, yn ystod mis Medi a mis Tachwedd 2024.
- Roedd dioddefwyr yn teimlo'n fodlon ar rwyddineb y cyswllt cychwynnol 68.8% o'r amser yn 2025. Mae hyn yn ostyngiad o 19.1% ar y flwyddyn flaenorol.
- Cynyddodd boddhad dioddefwyr â'r gwasanaethau a gafwyd yn ystod y cyswllt cychwynnol yn 2025 i 93.8% (cynnydd o 10.4%, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol).

**A ydych chi'n fodlon ar ba mor dda y cawsoch chi eich hysbysu am gynnydd?**

- Cynyddodd boddhad dioddefwyr o ran pa mor dda yr oeddent yn teimlo eu bod wedi cael gwybod am gynnydd yn 2025 i 62.5% o 48.5% y flwyddyn flaenorol.

## Arolwg troseddau

  - Cynhaliwyd 110 arolwg rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024.
  - Cynhaliwyd 103 arolwg rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025.

### Cyswllt cychwynnol

**A ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon ar y gwasanaeth a gawsoch gan yr aelod(au) cyntaf o staff y gwnaethoch chi roi gwybod iddynt am eich digwyddiad yn wreiddiol?**

- Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024, roedd boddhad dioddefwyr â'r gwasanaeth a gafwyd yn 73.9%. Cynyddodd boddhad yn ystod y flwyddyn ganlynol wrth i ddioddefwyr deimlo'n fodlon ar y gwasanaeth a gafwyd yn ystod yr alwad gychwynnol 81.6% ar gyfartaledd.
- Ar y cyfan, roedd gan ddioddefwyr lefelau is o foddhad â'r camau a gymerwyd gan yr heddlu. Yn 2025, roedd hyn yn 57.3%, sy'n ostyngiad o'i gymharu â 60.0% yn 2024.

**Gan ystyried y profiad cyfan, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar y gwasanaeth cyffredinol a ddarparwyd am yr achos gan yr heddlu?**

  - Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2024, roedd dioddefwyr yn teimlo'n fodlon 62.1% ar gyfartaledd.
  - Rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025, roedd dioddefwyr yn teimlo'n fodlon 63.6% ar gyfartaledd.

### Gwasanaethau

**A wnaeth unrhyw un o'r swyddogion heddlu neu staff y buoch chi mewn cysylltiad â nhw gynnig gwybodaeth i chi am y gwasanaethau cymorth a oedd ar gael i chi?**

- Yn 2024, roedd boddhad dioddefwyr â'r wybodaeth am wasanaethau cymorth yn 37.3%. Cynyddodd hyn rhwng mis Medi a mis Tachwedd 2025 i 43.7% o foddhad cyffredinol (cynnydd o 6.4%).

**A ydych chi'n fodlon neu'n anfodlon ar y cymorth a gawsoch chi gan y gwasanaeth cymorth i ddioddefwyr?**


Roedd dioddefwyr yn fodlon ar y gwasanaethau a ddarparwyd gan Goleudy 100.0% o'r amser yn ystod mis Medi a mis Tachwedd 2024.*

**Gan fod Goleudy wedi'i allanoli, nid yw data o fis Mawrth 2025 ymlaen yn cofnodi boddhad dioddefwyr â'r gwasanaethau a ddarperir gan Goleudy.*

## Gwasanaethau i ddioddefwyr

### A ydyw dioddefwyr yn gweld canlyniadau cadarnhaol o'u hymgysylltiad â chymorth a gwasanaethau cymorth arbenigol?

### Cymorth i Ddioddefwyr




### Llwybrau Newydd

| Gwasanaeth cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol | Chwarter 1: 2025–2026 | Chwarter 2: 2025–2026 |
|---|---|---|
| Gallu ymdopi'n well | 86% | 87% |
| Gostyngiad mewn symptomau o orbryder | 86% | 86% |
| Teimlo'n llai ynysig | 82% | 84% |
| Teimlo'n fwy cysylltiedig | 85% | 85% |

### Dal i Godi

| Gwasanaeth cynghorydd annibynnol ar drais domestig | Chwarter 1: 2025–2026 | Chwarter 2: 2025–2026 |
|---|---|---|
| % yn teimlo'n fwy abl i ymdopi | 70% | 61% |
| % yn teimlo llai o bryder | 62% | 55% |
| % yn teimlo'n llai ynysig | 65% | 58% |
| % yn teimlo bod eu diogelwch wedi gwella | 70% | 63% |

| | | |
|---|---|---|
| % yn teimlo eu bod wedi cael eu galluogi i wneud dewisiadau cadarnhaol | 74% | 68% |

## Adolygiadau Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu

### A ydyw'r cyhoedd yn fodlon ar y gwasanaeth a gânt gan yr heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol?

- Cafodd SCHTh 34 o geisiadau i adolygu cwyn rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2025 o'u cymharu â'r 29 a ddaeth i law yn yr un cyfnod ar gyfer 2024.
- Cafodd SCHTh 90 o gwynion rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2025, a gofnodwyd fel *'cwynion PSD'* (cwynion a gyfeiriwyd at yr Adran Safonau Proffesiynol). Yn ystod 2024, cofnodwyd 63 o 'gwynion PSD'.
- Daeth 20 o bryderon cymunedol i law yn ymwneud ag anfodlonrwydd ag amseroedd ymateb yr heddlu / diffyg diweddariadau. Mae hyn o'i gymharu â 47 o bryderon a ddaeth i law y llynedd.

Nid yw data Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr wedi newid ers adroddiad y chwarter diwethaf, ac felly nid yw wedi'i gynnwys.

Cwestiynau a gafodd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad praesept blynyddol ar ymddiriedaeth a hyder:

**Pa mor hyderus ydych chi y gall eich heddlu lleol gadw eich cymuned yn ddiogel yn effeithiol?**

- Ddim yn hyderus o gwbl: 140 (17%)
- Ddim yn hyderus iawn: 193 (24%)
- Ychydig yn hyderus: 349 (43%)
- Hyderus iawn: 121 (15%)

**I ba raddau ydych chi'n ymddiried yn eich heddlu lleol i drin pobl yn deg?**

- Ddim o gwbl: 101 (13%)
- Ychydig: 145 (18%)
- Rhywfaint: 263 (33%)
- Cryn dipyn:293 (37%)

**Adborth cyffredinol gan gynghorwyr yr ydym wedi ymgysylltu â nhw yn ystod diwrnodau ymgysylltu â'r gymuned yn fisol:**

- Dywedodd sawl un eu bod yn hapus â gwaith eu swyddog cefnogi cymunedol lleol.

Fodd bynnag, dywedodd y rhan fwyaf o gynghorwyr hefyd y byddent yn hoffi gweld mwy o swyddogion, a'r heddlu, yn eu cymunedau.

### Beth yw themâu mwyaf cyffredin y cwynion?

- Mae data Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu yn dangos, ar gyfer chwarter cyntaf ac ail chwarter 2025–2026, mai'r categori cwynion a gofnodwyd amlaf yn achos Heddlu Dyfed-Powys oedd 'Cyflawni dyletswyddau a gwasanaethau' (428 o gwynion o blith 762), sy'n cynnwys yr is-gategorïau 'Camau gweithredu'r heddlu yn dilyn cyswllt', 'Lefel gyffredinol o wasanaeth', a 'Penderfyniadau a

gwybodaeth'. Ar gyfer chwarter cyntaf ac ail chwarter 2024–2025, 'Cyflwyno dyletswyddau a gwasanaethau' oedd y categori cwynion a gofnodwyd amlaf eto, er y cofnodwyd y swm is o 301 o gwynion (o blith 498).

- O'r 34 adolygiad a gofnodwyd gan SCHTh, y themâu mwyaf cyffredin sy'n dod i'r amlwg yw:
  - Cam-drin domestig – anfodlonrwydd ag ymateb yr heddlu. Mae SCHTh hefyd wedi gweld cynnydd yn nifer y dioddefwyr cam-drin domestig gwrywaidd honedig sy'n gwneud cwyn yn mynegi eu hanfodlonrwydd bod eu hadroddiadau wedi cael eu hanwybyddu gan eu bod yn ddioddefwyr gwrywaidd (cafwyd 5 adolygiad o'r fath).
  - Diffyg diweddariadau / amseroldeb ymchwiliadau (cafwyd 4 adolygiad).
  - Anfodlonrwydd ar ganlyniad yr ymchwiliad (cafwyd 5 adolygiad).

## A ydyw dioddefwyr yn fodlon ar y gwasanaeth a gânt gan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu a phartneriaid cyfiawnder troseddol?

- Mae Panel Sicrhau Ansawdd y Comisiynydd wedi canolbwyntio ar y canlynol:
  - 25 Ionawr – Gofynnwyd i'r panel adolygu detholiad o atgyfeiriadau yn ymwneud ag oedolion a phobl ifanc i'r gwasanaeth Llwybrau Newydd.
    - Adborth cadarnhaol: O'r pedwar achos a adolygwyd, dim ond un oedd â bwlch wrth nodi atgyfeiriadau gan yr heddlu i Llwybrau Newydd. Roedd tystiolaeth ym mhob un o'r pedwar achos o ymgysylltiad cryf rhwng cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol a'r dioddefwyr. Ystyriwyd bod achosion 3 a 4 yn gryfach na'r ddau arall ar sail manylion yr archwiliad a gynhaliwyd gan y cynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol wrth gofnodi trafodaethau, pryderon, ac wrth arddangos y perthnasoedd rhyngweithiol rhwng Llwybrau Newydd, y dioddefwr a sefydliadau allanol. Ar draws y pedwar achos a archwiliwyd, roedd y gwasanaeth a ddarparwyd i oedolion a phlant yn debyg, a barn gyffredinol y panel oedd yr ymddengys bod plant yn cael eu trin â gofal priodol.
    - Meysydd i'w gwella: Efallai bod argaeledd swyddogion yn cyfrannu at hyd ymchwiliadau. Yn un o'r pedwar achos, bu oedi wrth bennu pwy oedd swyddog yr achos. Unwaith yr oedd y cynghorydd annibynnol ar drais rhywiol yn ymwybodol o swyddog yr achos, daeth i'r amlwg nad oedd swyddog yr achos ar gael oherwydd ei fod wedi cymryd gwyliau blynyddol. Roedd oedi mewn gohebiaeth rhwng Heddlu Dyfed-Powys a heddluoedd eraill yn ymestyn y cyfnod rhwng darparu diweddariadau i'r dioddefwr ac yn peri risg o ymddieithrio. Roedd safonau adrodd gan gynghorwyr annibynnol ar drais rhywiol yn amrywio'n sylweddol. Nid oedd yn ymddangos bod dull safonol ar gyfer diweddaru ffeiliau achos. Holodd y panel ynghylch goruchwyliaeth ac amlder gwiriadau sicrhau ansawdd i wella'r agwedd hon.
  - 25 Medi – Adolygodd y panel sicrhau ansawdd ddetholiad o ddigwyddiadau yn ymwneud â dioddefwyr treisio a throseddau rhywiol difrifol. Gofynnwyd i'r panel sicrhau ansawdd asesu cyfres o recordiadau o gamerâu corff a galwadau fideo sy'n defnyddio'r platfform GoodSAM. Roedd y fideo o'r camerâu corff yn dangos

ymateb cychwynnol swyddogion rheng flaen yr heddlu a'u rhyngweithio â'r dioddefwr. Roedd y fideo GoodSAM yn dangos rhyngweithiadau rhwng ditectifs arbenigol sy'n ymgysylltu ac yn casglu gwybodaeth gychwynnol o achosion o dreisio a throseddau rhyw difrifol nad ydynt yn ddiweddar (a ddigwyddodd fisoedd neu flynyddoedd yn ôl). Gofynnwyd i'r panel adolygu'r fideo a chanolbwyntio ar ddau faes penodol: 1. Asesu cydymffurfedd yr heddlu ynghylch y pump egwyddor cyfiawnder gweithdrefnol (tegwch, urddas a pharch, llais a chydnabyddiaeth, diogelwch, dibynadwyedd); 2. Cymharu safonau gwasanaeth a ddarperir gan swyddogion rheng flaen gweithredol a swyddogion yr Adran Ymchwilio i Droseddau sy'n gweithredu'r gwasanaeth ffôn rhithwir, GoodSAM.

- Pethau cadarnhaol: roedd lefel yr hyfforddiant i swyddogion rheng flaen yn ymddangos yn foddhaol. Cydnabu'r panel sicrhau ansawdd fod rôl a swyddogaeth swyddogion rheng flaen yn amrywiol ac yn ddynamig, ac felly efallai nad oes ganddynt yr un wybodaeth fanwl o'i chymharu â swyddogion a ditectifs sy'n arbenigo ar achosion o dreisio a throseddau rhyw difrifol. Canmolodd y panel sicrhau ansawdd broffesiynoldeb yr holl swyddogion a ddangoswyd ar y fideo camera corff a GoodSAM. Nid oedd unrhyw dystiolaeth o feio dioddefwyr na gwahaniaethu ar y fideo camera corff na GoodSAM wrth i'r heddlu ryngweithio â dioddefwyr.
- Meysydd i'w gwella: Roedd y ddau fideo GoodSAM a adolygwyd yn cynnwys yr un swyddog heddlu yn ymgysylltu â dioddefydd. Felly, roedd y Panel Sicrhau Ansawdd yn ansicr a ddylai Heddlu Dyfed-Powys ddehongli eu hadborth yn benodol ar gyfer y swyddog dan sylw neu fel asesiad cyffredinol o'r gwasanaeth a ddarperir trwy GoodSAM. Efallai y bydd angen rhoi ystyriaeth ehangach i sicrhau bod swyddogion yn meithrin perthynas ac yn dangos empathi wrth ymgysylltu'n rhithiol drwy GoodSAM, yn enwedig lle mae dioddefydd yn gwneud datgeliadau sensitif am dreisio a throseddau rhyw difrifol. Mewn cymhariaeth, teimlai'r panel sicrhau ansawdd

  bod y swyddogion rheng flaen wedi dangos empathi a'r gallu i feithrin perthynas dda â dioddefwyr.

  Gan fod fideo a recordiwyd gan GoodSAM yn cael ei ystyried yn briodol ar gyfer cofnodi datgeliadau gan ddioddefwyr, hoffai'r Panel Sicrhau Ansawdd weld fideo o'r camerâu corff lle mae swyddogion rheng flaen wedi casglu tystiolaeth yn yr un modd, yn hytrach na chwblhau'r llyfryn cyf-weld â thystion.

## A ydyw dioddefwyr yn fodlon ar ganlyniad eu hachos?

Adborth ansoddol gan ddioddefwyr

- Gwelodd SCHTh gynnydd yn nifer yr adolygiadau o gwynion yn ystod 2025 o'i chymharu â 2024 (ailadrodd yr uchod (3.1.1)), sy'n dangos ei bod yn bosibl bod anfodlonrwydd yn cynyddu. Fodd bynnag, nid dioddefwyr yn unig fydd wedi gwneud y cwynion hyn.

- Mewn un adolygiad o gŵyn a gadarnhawyd gan SCHTh, penderfynodd y gweithiwr achos nad oedd yr achos yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer i Ddioddefwyr.

### A oedd y canlyniadau a gymhwyswyd yn briodol?


- Roedd panel craffu y Comisiynydd ar gyfer gwarediad y tu allan i'r llys, yn achos y 29 achos oedolyn a adolygwyd yn 2025, o'r farn bod:
  - 11 (38%) yn briodol
  - 9 (31%) yn briodol gydag amheuon
  - 8 (28%) yn amhriodol
  - 1 (3%) lle'r oedd y panel wedi methu â dod i gasgliad
- Mae hyn yn cymharu â'r 33 achos oedolyn a adolygwyd yn 2024 lle'r oedd:
  - 12 (36%) yn briodol
  - 13 (39%) yn briodol gydag amheuon
  - 8 (24%) yn amhriodol

## Sicrhau safonau


Mae prosesau sicrhau safonau mewnol wedi'u cwblhau ar hyn o bryd ar gyfer cam-drin domestig, treisio, stopio a chwilio a defnyddio grym. Mae prosesau sicrhau safonau yn rhoi'r cyfle i adolygu a gwerthuso'n ansoddol effeithiolrwydd a chyfreithlondeb achosion.

### Treisio


Cychwynnodd yr adolygiad sicrhau ansawdd o ran ymchwiliadau i dreisio ym mis Medi 2024. Ers ei lansio hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2025, mae cyfanswm o 489 o ddigwyddiadau treisio wedi bod yn destun sicrhau ansawdd. Mae'r graffiau isod yn dangos y cyfraddau ymateb cadarnhaol. (Cyfran yr ymatebion a atebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn a ddewiswyd.)




*Ffigur 64: Sicrhau safonau mewnol achosion o dreisio – rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr.*





*Ffigur 65: Sicrhau safonau mewnol achosion o dreisio – iaith yn beio'r dioddefwr.*




*Ffigur 66: Canlyniad priodol ar gyfer sicrhau safonau mewnol achosion o dreisio wedi'i gymhwyso.*


## Cam-drin domestig

Cychwynnodd yr adolygiad sicrhau safonau achosion o gam-drin domestig ym mis Ionawr 2024. Ers ei lansio hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2025, mae cyfanswm o 1,862 o ddigwyddiadau cam-drin domestig wedi bod yn destun sicrhau ansawdd. Mae'r graffiau isod yn dangos y cyfraddau ymateb cadarnhaol. (Cyfran yr ymatebion a atebodd yn gadarnhaol i'r cwestiwn a ddewiswyd.)





*Ffigur 67: Sicrhau safonau mewnol achosion o gam-drin domestig – rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddioddefwyr.*

Yn ystod trydydd chwarter 2025–2026, roedd un o blith 240 (0.4%) o archwiliadau a gwblhawyd yn ystyried bod iaith beio'r dioddefwyr wedi cael ei ddefnyddio.





*Ffigur 68: Sicrhau safonau mewnol achosion o gam-drin domestig – iaith yn beio'r dioddefwr.*




*Ffigur 69: Sicrhau safonau mewnol achosion o gam-drin domestig – canlyniad priodol wedi'i gymhwyso.*


## Llais y plentyn

Gellir gweld gwelliannau yn nifer y digwyddiadau pan gafodd llais y plentyn ei gofnodi.




*Ffigur 70: Sicrhau safonau mewnol achosion o gam-drin domestig – llais y plentyn wedi'i gofnodi.*

Yn ogystal â deall y cydymffurfedd, o ran y nifer, mae'n bwysig deall yr ansawdd, a chaiff hyn ei gofnodi trwy ddefnyddio'r cofair AWARE.




*Ffigur 71: Sicrhau safonau mewnol achosion o gam-drin domestig – cofair AWARE.*